

Vaughan Gething AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a  
Chwaraeon  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd

8 Awst 2016

### **Craffu ar y Gyllideb**

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

Cyn i'r Pwyllgor graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth ar y materion canlynol i'w gynorthwyo gyda'i waith craffu.

I helpu'r Pwyllgor gyda'i waith, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y llythyr hwn erbyn **24 Hydref**.

### **Gwasanaethau newyddenedigol**

- Y gyllideb a ddyrannwyd i gyrraedd y safonau newyddenedigol cenedlaethol; blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol ar gyfer y 12 mis nesaf ac yn y tymor hwy; a sut bydd dyraniad y gyllideb ar gyfer 2017–18 yn helpu i ysgogi newid / gwella perfformiad;
- Dadansoddiad cyllidebol o'r dyraniad refeniw ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol ar gyfer 2017–18, gan gynnwys gwariant gan Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC);
- Lefelau o wariant ar wasanaethau newyddenedigol yng Nghymru bob blwyddyn, ers 2008, fesul BILL, gan gynnwys gwariant WHSSC (yn dilyn buddsoddiad cynyddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol yn 2008, gan helpu i sefydlu rhwydwaith clinigol, gwella lefelau staffio a darpariaeth trafndiaeth);
- Gwybodaeth benodol am y dyraniad yn y gyllideb a'r gwariant ar gyfer gwasanaethau trafndiaeth newyddenedigol, gan gynnwys cadarnhad bod digon o



arian wedi'i ddarparu yn y dyraniadau cyllideb ar gyfer 2017–18 i ddarparu gwasanaeth llawn amser yn y de a'r gogledd a gwasanaeth ambiwlans penodol yn y gorllewin.

- Manylion cynhwysfawr am lefelau costau, gwariant, staffio a swyddi gwag o fewn gwasanaethau newydd–anedig Cymru.
- Gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn olrhain gwariant ar wasanaethau newyddenedigol a'r prosesau sydd ar waith i ddal byrddau iechyd lleol i gyfrif i sicrhau bod gwasanaethau newyddenedigol yn cael y cyllid a'r staff angenrheidiol er mwyn cyrraedd y safonau cenedlaethol.
- Unrhyw wybodaeth ychwanegol am y cynllun busnes ar gyfer uned newyddenedigol newydd Glan Clwyd gwerth £18m ac uwchraddio'r gwasanaeth newyddenedigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent, a chostau cysylltiedig.

### **Anghydraddoldebau iechyd plant**

Yng nghyd–destun paratoi ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio a phwysau difrifol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sut mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd plant a sut caiff hyn ei adlewyrchu yn y dyraniadau cyllideb ar gyfer 2017–18?

### **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc**


- Gwybodaeth am gyllid ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) arbenigol ar gyfer 2017–18
- Pa asesiad sydd wedi'i wneud o oblygiadau ariannol cyflawni Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc ar gyfer 2017–18
- Pa asesiad sydd wedi'i wneud o ganran y gwariant ar iechyd meddwl BILl a ddyrannwyd ar gyfer CAMHS yn 2015–16 a 2016–17
- A fydd y £7.6 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i CAMHS, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015, yn parhau i gael ei ddyrannu'n flynyddol yn barhaus
- Diweddariad ar y gwariant gwirioneddol ar gyfer y rowndiau ariannu cychwynnol rowndiau, yr alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015–16 a'r gwariant a ragfynegir ar gyfer 2016–17, a oedd yn bwriadu ariannu:
  - £2m i ddatblygu gwasanaethau nwirow–datblygiadol, gan gynnwys ADHD ac anhwylder y sbectrum awtistig;
  - £2.7m i wella ymateb CAMHS y tu allan i oriau ac argyfwng;



- £1.1m i ehangu mynediad i therapïau seicolegol, gan gynnwys cynyddu therapïau siarad fel dewis amgen i feddyginiaeth;
- £800,000 i wella gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol;
- £250,000 i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol; ac
- £800,000 i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sydd â diagnosis cynnar o salwch difrifol, fel seicosis.

Gyda llawer o ddiolch am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**  
Cadeirydd

